



**Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion
2021 Canllawiau a Chategoriâu
Dyddiad cau: Dydd Gwener 19 Chwefror
2021**

Beth yw Gwobrau Ysbrydoli!?

Mae Gwobrau Ysbrydoli! yn dathlu llwyddiannau unigolion, teuluoedd, prosiectau a sefydliadau sydd wedi dangos angerdd, ymrwymiad a phenderfyniad eithriadol i wella eu hunain, eu cymuned neu weithle trwy ddysgu.

Trefnir y gwobrau gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Cynhelir y seremoni wobrwyo fel rhan o Wythnos Addysg Oedolion.

Am beth yr ydym yn chwilio?

Rydym yn chwilio am unigolion, teuluoedd, prosiectau a sefydliadau y bydd eu llwyddiannau wrth ddysgu yn ysbrydoli eraill i ddechreuedd at ddysgu neu i droi ato - pobl sydd wedi gwella eu bywydau a/neu fywydau pobl eraill a chael profiad cadarnhaol neu un sydd wedi newid eu bywyd trwy ddysgu oedolion.

Gwobrau Unigolion a Theuluoedd

- Mewn i Waith
- Oedolion Ifanc
- Newid Bywyd a Chynnydd
- Iechyd a Llesiant
- Heneiddio'n Dda
- Cychwyn Arni - Dechreuwyr Cymraeg
- Gorffennol Gwahanol: Rhannu Dyfodol
- Dysgu fel Teulu
- Sgiliau Hanfodol Bywyd

Gwobrau Prosiectau a Sefydliadau

- Prosiect Effaith Cymunedol
- Sgiliau yn y Gwaith

Canllaw i gyflwyno eich enwebiad

- Gallwch gynnig enwau am ddim ac mae'r gwobrau ar agor i unigolion a sefydliadau sy'n byw a gweithio yng Nghymru
- Gall y dysgu fod wedi ei achredu neu heb ei achredu a digwydd mewn unrhyw leoliad, o'r gweithle i'r dosbarth, yn y cartref neu yn y gymuned
- Gall unrhyw un 16 oed neu hŷn enwebu / gael ei enwebu am Wobr Ysbrydoli!, cyfeiriwch at y canllawiau am bob categori
- Rhaid i'r ymgeiswyr yn y categorïau unigol fod wedi eu henwebu gan rywun arall - gall hynny fod yn ffrind, mentor, cydweithiwr, aelod o'r teulu, neu gyflogwr sy'n

adnabod yr unigolyn a enwebir

- Dylai'r ceisiadau am y categorïau prosiect / sefydliad gael eu hysgrifennu gan arweinydd tîm neu brosiect a'i gadarnhau gan uwch reolwr / ganolwr sy'n gwybod yn iawn am y ddarpariaeth
- Bydd eich cais yn cael ei farnu ar sail y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn eich cais felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen meini prawf y categorïau Gwobrau Ysbrydoli! isod i helpu yn hyn o beth
- Rhaid i'r datganiadau enwebai ac enwebydd gael eu llenwi, cyfeiriwch at ein canllaw ar '[sut i ysgrifennu ffurflen enwebu lwyddiannus](#)' i'ch helpu gyda'r ffurflen:

Cofiwch gyflwyno erbyn y dyddiad cau - dydd Gwener 19 Chwefror 2021

Sut mae'r broses ddethol yn gweithio?

- Bydd panel annibynnol o feirniaid o'r sector dysgu, sgiliau a chyfryngau yn dethol enillwyr terfynol y categorïau
- Hoffem i unrhyw enwebiad am y Gwobrau Ysbrydoli! fod yn gatalydd i ddatlu storiâu dysgu oedolion. Byddem yn annog unrhyw un sy'n enwebu ar gyfer y gwobrau i ddefnyddio'r broses i ddatlu pob enwebai gyda seremonïau lleol/rhanbarthol ac ymuno â gŵyl Wythnos Addysg Oedolion i wneud hyn
- Bydd enwebwyr pob enillydd gwobr Ysbrydoli! yn cael eu hysbysu erbyn diwedd Mawrth pan fydd manylion y seremoni wobrwyo yn cael eu rhyddhau

Sut gallaf i gyflwyno fy ffurflen enwebu?

TRWY E-BOST

Anfonwch eich ffurflen wedi ei llenwi trwy e-bost at:

inspire@learningandwork.org.uk

Categoriâu Gwobrau Ysbrydoli! 2021

Gwobrau Unigolion a Theuluoedd

Mewn i Waith

I lawer o bobl y cymhelliant dros ddatblygu eu sgiliau yw gwella eu rhagolygon o ran swyddi, i gael gwaith am y tro cyntaf neu ar ôl cyfnod hir o fod yn anweithredol yn economaidd.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod unigolyn sydd wedi dangos penderfyniad eithriadol i wella ei gyflogadwyedd trwy ddysgu, gyda'r nod neu'r canlyniad o gael swydd.

[Chloe Young](#) enillydd gwobr 2020

[Thomas Ferriday](#) enillydd gwobr 2019

Oedolyn Ifanc

I rai nid yw'r profiad cyntaf o addysg yn un cadarnhaol ond mae llawer o bobl ifanc yn dychwelyd at addysg ar ôl y cyfnod gorfodol oherwydd eu bod am wneud newid cadarnhaol ac adeiladu gwell dyfodol. Efallai na fydd rhai pobl ifanc wedi gallu ymgysylltu'n llawn yn yr ysgol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu neu efallai bod rhywbeth wedi amharu ar eu bywyd am resymau eraill.

Bydd enillydd y wobwr hon yn unigolyn sydd wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i'w daith ddysgu ei hun, ac sy'n un i'w wyllo at y dyfodol! Mae'r wobwr hon ar agor i unrhyw ddysgwyr rhwng 16 a 25 oed (rydym yn croesawu enwebiadau ar ran pobl ifanc sy'n cael gofal, rhai sydd wedi gadael gofal a gofalwyr ifanc yn neilltuoel).

[Alisha Morgan](#) enillydd gwobr 2020

[Owen Roberts](#) enillydd gwobr 2019

[Jimama Ansumana](#) enillydd gwobr 2017

Newid Bywyd a Chynnydd

Rydym yn gwybod bod dysgu yn creu cyfleoedd i bobl symud ymlaen yn eu bywyd, eu gwaith a gartref. Weithiau mae'n anodd cadw'r cymhelliant a'r ymroddiad i ddysgu, ac mae llawer o bobl yn wynebu rhwystrau sylweddol. Wrth i'r boblogaeth dyfu a heneiddio ac i dechnoleg newydd ddatblygu, rydym oll yn gweithio yn hwy, yn newid gyrfa yn amlach ac yn dysgu sgiliau newydd ar hyd ein hoes.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod oedolyn sydd wedi dangos cynnydd yn ei ddysgu, mewn amgylchiadau anodd efallai, trwy gamau gwahanol; i brifysgol efallai neu i swydd ei freuddwydion. Bydd enillydd y wobwr hon yn rhywun sydd wedi gwirioni ar ddysgu. Gall fod yn rhywun sydd wedi newid ei fywyd neu yrfa trwy ddysgu, gan ddangos nad yw hi fyth yn rhy hwyr am ail gyfle, cyfeiriad newydd neu ddechrau o'r newydd!

[Andrea Garvey](#) enillydd gwobr 2019

[John Spence](#) enillydd gwobr 2018

[Emily Harding](#) enillydd gwobr 2018

[Rose Probert](#) enillydd gwobr 2016

Iechyd a Llesiant

Mae dysgu oedolion yn diogelu iechyd a llesiant ac yn cefnogi bywydau hwy a chynhyrchiol. Mae ymdrin â'r problemau iechyd meddwl, heneiddio, unigrwydd yn her allweddol ar gyfer ein dyfodol.

Bydd y wobwr hon yn cydnabod yr effaith y gall dysgu oedolion ei gael ar iechyd a llesiant. Bydd enillydd y wobwr yn dangos manteision ehangach dysgu oedolion a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud i ansawdd eu bywydau. Gall yr enwebiadau ddisgrifio cysylltiadau rhwng y ddarpariaeth ddysgu a iechyd a gofal cymdeithasol ac amlinellu a yw ymyraethau iechyd wedi newid neu leihau tra bu'r un enwebedig yn dysgu. Dylai enillydd y wobwr ddangos bod ei ddysgu wedi atal problemau iechyd meddwl a /neu iechyd corfforol a llesiant sylweddol neu gyfrannu at adfer.

[Jamie Evans](#) enillydd gwobr 2020

[Catrin Pugh](#) enillydd gwobr 2018

[Laura Harris](#) enillydd gwobr 2017

Sgiliau hanfodol a sgiliau bywyd (newydd ar gyfer 2021)

Mae llythrennedd, rhifedd, digidol, gallu ariannol, llythrennedd iechyd a dinasyddiaeth yn ganolog i ragolygon gwaith a gyrfa pobl a'u gallu i fod yn weithredol ac ymgysylltu â'u cymunedau. Dros amser mae newidiadau economaidd a chymdeithasol, a datblygiad technoleg yn cynyddu eu pwysigrwydd.

Bydd enillydd y wobwr hon yn dangos effaith datblygu sgiliau hanfodol a'r trawsnewidiad y gall ei greu, gall hyn fod yn gynyddu hyder, cefnogi perthynas deuluol, y gallu i ymgysylltu mwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a rhyngweithio cymdeithasol.

Heneiddio'n Dda

Mae dysgu yn hwyrach mewn bywyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at daclo unigrwydd, cadw cysylltiad, a chynnal ffordd o fyw weithredol.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod gwerth parhau i ddysgu ac ennill sgiliau newydd wrth fynd yn hŷn, bydd yn dangos y cyfraniad y gall llawer o bobl hŷn ei wneud at ddysgu gydol oes. Dylai enillydd y wobwr ddangos pam ei fod/ei bod wedi parhau i ddysgu neu ymgysylltu â dysgu yn hwyrach mewn bywyd, gallant fod yn weithredol yn cynnal dysgu wedi ei drefnu yn unigol yn y gymuned neu gall fod yn trosglwyddo sgiliau ymlaen ar draws cenedlaethau. Mae'r wobwr hon ar agor i ddysgwyr dros 60 oed.

[Ralph Handscomb](#) enillydd gwobr 2020

Cychwyn Arni - Dechreuwyr Cymraeg

Yr uchelgais yng Nghymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I oedolion, mae cyfleoedd i ddysgu ar-lein, trwy ddsbarth cymunedol neu yn y gweithle.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod unigolyn sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg trwy ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad neu Sylfaenol. Nid ydym yn disgwyl i enillydd y wobwr fod wedi meistrolï'r iaith yn llawn; ond, fe fyddem yn hoffi i ymgeiswyr fod wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith gyda'r teulu, yn eu cymuned neu weithle.

[Joseff Gnagbo](#) enillydd gwobr 2020

[Rhiannon Norfolk](#) enillydd gwobr 2019

[Marilyn Llewellyn](#) enillydd gwobr 2018

Gorffennol Gwahanol: Dyfodol a Rennir

Mae gan Gymru dreftadaeth falch ac amrywiol a hanes hir o groesawu a chefnogi cymunedau mudol ac o ffoaduriaid.

Bydd y wobr hon yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan y rhai sydd wedi dewis gwneud bywyd newydd yma. Rydym yn chwilio am unigolyn (ffoadur, ceisiwr lloches neu ymfudwr) sydd wedi cael mynediad at ddysgu a datblygu ei sgiliau, gan ei arwain ymlaen i ddysgu rhagor, cael gwaith neu wirfoddoli.

[Chawan Ali](#) enillydd gwobr 2020

[Tarek Zou Alghena](#) - enillydd gwobr 2019

Dysgu fel Teulu

Dod yn rhiant yn aml yw'r ysgogiad sydd ei angen i gymryd cam yn ôl i ddysgu. Mae llawer o rieni am gael y sgiliau i gefnogi eu plant yn effeithiol trwy eu hoes ac rydym yn gwybod bob plant sydd â rhieni a lefel uwch o sgiliau a chymwysterau yn dueddol o wneud yn dda yn yr ysgol.

Rydym am gydnabod rhiant neu grŵp teuluol sy'n cymryd rhan mewn dysgu fel teulu/oedolion naill ai yn yr ysgol, yn y gymuned neu gartref. Mae arnom eisiau clywed am yr effaith arnyn nhw fel teulu - a yw wedi gwneud gwahaniaeth i'w perthynas fel teulu, wedi cynyddu'r uchelgais o ran gwaith, cymryd rhan yn y gymuned neu lwyddiant yn yr ysgol.

[Y Teulu Smith](#) enillwyr gwobr 2020

[Natalie Lintern](#) enillydd gwobr 2019

[Khala Slack a Sarah Slack](#) enillwyr gwobr 2016

[Alison Rogers](#) enillydd gwobr 2016

Gwobrau Prosiectau a Sefydliadau

Prosiect Effaith Cymunedol

I lawer o bobl, mae'r llwybr yn ôl at ddysgu yn cychwyn yn agos at gartref, mewn lleoliad cymunedol, neu fel rhan o brosiect cymunedol. Mae llawer o brosiectau cymunedol yn cydnabod rôl addysg a sgiliau fel galluogwyr allweddol a fydd yn rhoi'r hyder y mae ar bobl ei angen i lwyddo.

Mae'r wobr hon yn cydnabod prosiect cymunedol sydd wedi defnyddio dysgu fel offeryn allweddol i gael pobl i helpu eu hunain ac eraill yn llwyddiannus. Bydd enillydd y wobr hon yn brosiect sy'n gweithio gyda phobl na fyddai yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol nac anffurfiol fel arall, neu sydd angen ail gyfle!

[Community Impact Initiative](#) enillydd gwobr 2020

[Rhaqlen CHASE](#) enillydd gwobr 2019

[Pêl-droed yn y Gymuned y Rhyl](#) enillydd gwobr 2018

[3Gs Only Men Allowed](#) enillydd gwobr 2017

Sgiliau yn y Gwaith

Mae buddsoddi mewn sgiliau yn y gwaith o fudd i bawb yn y gweithle. Mae gwella sgiliau gweithwyr yn gwella cyfathrebu, perthynas waith a chynhyrchiant gan leihau lefelau absenoldeb a gwella morâl y staff.

Rydym am gydnabod dysgu a datblygu yn y gweithle lle gellir dangos cyflawniad, llwyddiannau ac effaith ar unigolion a thimau.

Nod y wobwr hon yw dangos y manteision busnes i'r sefydliad a'r gweithwyr yn glir. Gall dynnu sylw at gynhwysiant, blaengaredd a modelau arfer da o ran dysgu a datblygu; wedi eu darparu gan bartneriaethau yn y gweithlu.

Gall hyn gynnwys gwella cynnydd gyrfa, cyflenwi cyfleoedd i'r rhai sydd wedi cael llai o gyfle i ddatblygu eu sgiliau yn y gwaith neu greu partneriaethau sy'n ysbrydoli i fodloni amcanion a chyflawni deilliannau cynaliadwy. Gall yr enwebiad ganolbwyntio ar brosiect neu gynllun dysgu penodol mewn gweithle, gall fod yn ddull y sefydliad cyfan (bach neu fawr) o ran ymgysylltu â phobl, eu datblygu a'u cefnogi; neu gall fod yn weithgaredd sydd wedi ei arwain gan undebau llafur a/neu bartneriaid eraill fel y trydydd sector a darparwyr hyfforddiant.

[Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg](#) enillydd gwobr 2020

[Tîm Rheoli Gwastraff](#) enillydd gwobr 2019

[Tîm Sgiliau Hanfodol Cyngor Caerdydd](#) enillydd gwobr 2018